Hawdd ei Ddeall

# Cymunedau Cymreig a'r celfyddydau

## Adroddiad ynglŷn â gwneud y celfyddydau yn fwy poblogaidd mewn cymunedau Cymreig




Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Recognition Wales**. Fersiwn hawdd ei ddeall yw e o '**Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn adrodd ar ehangu ymgysylltiad creadigol a diwylliannol â chymuned lled-wledig Penderyn a'r ardal gyfagos**'.

**Medi 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 18**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni,** mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:


**Gwefan:** www.recognition.wales

**E-bost:** Jon@recognition.wales

**Ffôn:** 029 20 318095


Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**......................................................................................................4

**Y pethau wnaethon ni**..........................................................................5

**Sut y gwnaethon ni'r pethau hyn**........................................................6

**Y pethau y daethon ni i wybod**..........................................................7

Beth ddywedodd pobl am y celfyddydau............................................8

Lleoliadau a digwyddiadau poblogaidd..............................................9

Pam y mae pobl yn mynd i ddigwyddiadau.......................................10

Dod i wybod am ddigwyddiadau.........................................................11

Adnabod pobl yn y celfyddydau.........................................................12

Y pethau ddywedodd pobl y buasen nhw'n hoffi eu cael...............13

**Beth ddylai ddigwydd nesaf**...............................................................14

**Geiriau anodd**.................................................................................... 18

# Cyflwyniad

Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** yn gwneud prosiect mawr.

Mae'r prosiect ynglŷn â gwneud celfyddydau Cymru yn fwy **cynhwysol** a **hawdd eu gwneud**.



Mae **cynhwysol** yn meddwl y gall pawb gymryd rhan, a bod pawb yn cael cyfle teg.

Mae **hawdd eu gwneud** yn cynnwys llawer o wahanol bethau. Fel symud o un lle i'r llall, defnyddio pethau a deall pethau sy'n cael eu dweud neu eu hysgrifennu mewn ffordd hawdd.



Nid yw'r celfyddydau'n boblogaidd mewn rhai cymunedau Cymreig.




Mae ar **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** eisiau dod i wybod pam. A beth allen nhw wneud i newid hyn. Fe ofynnon nhw i ni eu helpu.

# Y pethau wnaethon ni




Fe siaradon ni â phobl mewn cymunedau sydd **dan anfantais.**



Mae cymunedau sydd **dan anfantais** yn lleoedd ble mae llawer o bobl yn byw mewn **tlodi**.

Mae **tlodi** yn meddwl nad oes gennych chi ddigon o arian i dalu eich biliau a bwydo eich hun a'ch teulu, i wresogi eich cartref, i brynu'r pethau mae arnoch chi eu hangen a mynd o gwmpas.



Fe siaradon ni â phobl ym Mhenderyn, Aberdâr a Hirwaun. Mae'r cymunedau hyn yn Ne Cymru.



Fe ofynnon ni i'r bobl hyn beth maen nhw'n feddwl am gelfyddydau Cymru.



A beth fyddai'n gwneud celfyddydau Cymru yn fwy **cynhwysol** a **hawdd eu gwneud**.

# Sut y gwnaethon ni’r pethau hyn



Roedd arnon ni eisiau siarad â phobl yn eu cymunedau eu hunain. Ble roedden nhw’n teimlo’n gyfforddus.



Roedd arnon ni eisiau siarad â phobl wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein. But the pandemic meant we had to change our plans.




Ond roedd y pandemig yn meddwl bod yn rhaid i ni newid ein cynlluniau.



Doedden ni ddim yn gallu siarad ag unrhyw un wyneb yn wyneb.



Fe siaradon ni â phobl dros y ffôn yn unig.

# Y pethau y daethon ni i wybod




Fe ofynnon ni gwestiynau i 72 o bobl am gelfyddydau Cymru. Dyma beth y daethon ni i wybod:

## Democratiaeth ddiwylliannol



Mae'n **ddemocratiaeth ddiwylliannol** pan fydd pawb yn cael dweud eu barn am gelfyddydau lleol a digwyddiadau diwylliannol.




Fel pa ddigwyddiadau i'w cynnal. A ble a phryd y byddan nhw'n digwydd.



Fe ofynnon ni i bobl beth roedden nhw'n feddwl am **ddemocratiaeth ddiwylliannol**.



Roedd y rhan fwyaf o bobl wrth eu boddau â'r syniad o **ddemocratiaeth ddiwylliannol.** Roedden nhw'n meddwl y buasai'n dda ar gyfer eu cymunedau.

# Beth ddywedodd pobl am y celfyddydau



Dywedodd llawer o bobl nad oedden nhw’n gwybod llawer am **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru**.



A dydyn nhw ddim yn gwybod am unrhyw un sydd wedi cael eu helpu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru.**



Mae rhai pobl yn gwybod llawer am gelfyddyd a diwylliant. Yn enwedig diwylliant Cymru.




Dywedodd ychydig o bobl nad oedd celfyddyd a diwylliant yn meddwl dim iddyn nhw.



Dywedodd llawer o bobl nad oedden nhw’n teimlo’n rhan o gelfyddyd a diwylliant yn lleol.

# Lleoliadau a digwyddiadau poblogaidd



Roedd y rhan fwyaf o bobl ofynnon ni iddyn nhw wedi mynd i ddigwyddiad celfyddyd neu ddiwylliant yn y ddwy flynedd ddiwethaf.



Roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi mynd i leoliadau o gwmpas Caerdydd.



Dywedson nhw nad oedd gan leoliadau lleol lawer o ddigwyddiadau maen nhw'n eu hoffi.



Y lleoliadau yr aethon nhw i ymweld â nhw fwyaf oedd Amgueddfa Caerdydd, Sain Ffagan, a Chanolfan y Mileniwm.



Aeth dipyn go lew o bobl i Golisëwm Aberdâr hefyd. Ac roedden nhw'n ei hoffi yno.



Y digwyddiadau mwyaf poblogaidd yw celfyddyd, cerddoriaeth a sioeau cerdd.

# Pam y mae pobl yn mynd i ddigwyddiadau



Mae rhai digwyddiadau yn fwy poblogaidd na rhai eraill.




Dywedodd pobl bod ar ddigwyddiad angen bod yn rhywbeth mae ganddyn nhw ddiddordeb ynddo. A rhywbeth maen nhw'n gallu ei ddeall.



Mae pobl yn hoffi cerddoriaeth a sioeau cerdd, dramâu, sioeau ar daith ac arddangosfeydd fwyaf.



Dywedodd pobl hefyd bod ar ddigwyddiadau angen bod yn **hawdd gwneud pethau** ynddyn nhw.




Dywedodd y rhan fwyaf o bobl bod cost yn bwysig hefyd. Os bydd rhywbeth yn rhy ddrud, fyddan nhw ddim yn mynd.

# Dod i wybod am ddigwyddiadau



Dywedodd llawer o bobl nad ydyn nhw’n gwybod yn aml pa ddigwyddiadau oedd yn digwydd yn lleol.



Nac o amgylch Cymru.



Dywedodd y rhan fwyaf o bobl ei bod hi’n well ganddyn nhw glywed am ddigwyddiadau trwy bosteri a thaflenni.




Mae’n well gan lawer o bobl ddod i wybod am ddigwyddiadau ar-lein.



Dywedodd llawer o bobl y dylai bod gwell gwybodaeth am ddigwyddiadau ar gael.

# Adnabod pobl yn y celfyddydau



Dywedodd llawer o bobl nad oedden nhw'n adnabod unrhyw un sy'n gweithio yn y celfyddydau.



A doedd neb yn adnabod unrhyw un sy'n gweithio mewn amgueddfa. Neu gydag **Amgueddfa Cymru**.



Ond mae llawer o bobl yn adnabod rhywun sy'n ymwneud â'r '**Colstars**'.



Mae'r '**Colstars**' yn gwneud llawer o waith da gyda chymunedau lleol.



Yn enwedig cael plant i gymryd rhan yn y theatr.

## Y pethau ddywedodd pobl y buasen nhw'n hoffi eu cael



Roedd ar y rhan fwyaf o bobl eisiau mwy o ddosbarthiadau celfyddyd a chrefftau. Fel coginio a phaentio.




Mae ar lawer o bobl eisiau mwy o weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifainc.



A gweithgareddau ble mae grwpiau o wahanol oed yn medru gwneud pethau gyda'i gilydd.



Dywedodd pobl wrthyn ni bod ar grwpiau a lleoliadau lleol angen mwy o arian.




Mae rhai pobl yn meddwl bod y pandemig wedi bod yn ddrwg ar gyfer eu cymuned. Ac y gallai'r celfyddydau helpu.



Dywedodd rhai pobl bod ar leoliadau angen bod yn fwy **hawdd mynd o gwmpas** i bobl anabl.

# Beth ddylai ddigwydd nesaf




Fe wrandawon ni ar y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni. A beth roedden nhw'n feddwl fyddai'n gwneud y celfyddydau'n fwy poblogaidd.



Dyma rydyn ni'n meddwl y dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** ei wneud nesaf:

1. **Gadael i bobl gael dweud eu barn yn eu digwyddiadau lleol**



Bydd gadael i bobl ddweud eu barn mewn digwyddiadau lleol yn gwneud y celfyddydau'n fwy poblogaidd.




Oherwydd bydd pobl yn cael digwyddiadau sydd arnyn nhw wir eisiau.



Dylai **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** weithio gyda grwpiau cymunedol lleol. Gyda'i gilydd gallan nhw greu digwyddiadau sydd ar bobl wir eisiau.

## 2. Dweud wrth bobl am Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru



Dywedodd llawer o bobl nad ydyn nhw’n gwybod llawer am **Gyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru**.



Rydyn ni’n gwybod nad yw hyn yn newid pa gelfyddydau a diwylliant y mae pobl yn eu mwynhau.



Ond buasai’n dda petai pobl yn gwybod sut y gallai’r mudiadau hyn eu helpu




Er enghraifft, gall **Cyngor Celfyddydau Cymru** roi **nawdd** ar gyfer prosiectau celfyddyd.

Mae **nawdd** yn arian y gall pobl neu fudiadau ei gael i’w helpu i wneud eu gwaith.



Gallai **nawdd** helpu grwpiau cymunedol lleol sydd angen mwy o arian ar gyfer digwyddiadau.

## 3. Creu digwyddiadau ar gyfer plant a phobl ifainc



Mae ar bobl eisiau mwy o ddigwyddiadau celfyddyd a diwylliant ar gyfer plant a phobl ifainc.



Mae'n dda i blant a phobl ifainc gael pethau maen nhw'n mwynhau eu gwneud. Yn enwedig yn lleol.



Byddai hyn yn dda ar gyfer cymunedau hefyd. Byddai'n helpu mwy o bobl i ddod i adnabod ei gilydd.



Gallai plant a phobl ifainc wneud gweithgareddau celfyddyd â phobl mewn cartrefi gofal.




Byddai hyn yn codi calon pawb. Yn enwedig ar ôl y pandemig.

## 4. Defnyddio'r celfyddydau i wneud cymunedau'n gryfach





Mae'r pandemig wedi bod yn anodd i lawer o gymunedau.



Mae wedi gwneud i lawer o bobl deimlo'n unig. Oherwydd dydyn nhw ddim wedi gweld pobl eraill am amser hir.



Mae wedi gwneud i bobl deimlo'n ddiflas oherwydd bod dim byd i'w wneud.




Gallai cael mwy o ddigwyddiadau celfyddyd a diwylllliannol lleol helpu llawer ar bobl.



Byddai pobl yn cael mwy o hwyl a phethau diddorol i'w gwneud yn lleol.



A buasen nhw'n dod i adnabod mwy o bobl yn eu cymunedau.

# Geiriau anodd

## Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl y gall pawb gymryd rhan, a gall pawb gael cyfle teg.

## Dan anfantais

Mae cymunedau sydd dan anfantais yn lleoedd ble mae llawer o bobl yn byw mewn tlodi.

## Hawdd eu gwneud

Mae hawdd eu gwneud yn cynnwys llawer o wahanol bethau. Fel symud o un lle i'r llall, defnyddio pethau a deall pethau sy'n cael eu dweud neu eu hysgrifennu mewn ffordd hawdd.

## Nawdd

Mae nawdd yn arian y gall pobl a mudiadau ei gael i'w helpu yn eu gwaith.

## Tlodi

Mae tlodi yn meddwl nad oes gennych chi ddigon o arian i dalu eich biliau a bwydo eich hun a'ch teulu, i wresogi eich cartref, i brynu'r pethau mae arnoch chi eu hangen a mynd o gwmpas.